


© George Tordoff



## Species Champion



**Mike Hedges MS**
Party: Welsh Labour and Co-operative
Region: Swansea East



# Small Blue

## Description and status

This dainty butterfly is easily overlooked, partly because of its small size and dusky colour and it is restricted to patches of grassland with Kidney Vetch, its caterpillar foodplant.

The adult can be seen from mid-May to late June in small colonies, the adults rarely flying more than 40m. However, in south Wales they have colonised coalspoil sites in the Valleys many kilometres from their stronghold on the sand dunes, coastal cliffs and docklands. As a result it has increased its range in Wales compared to a sharp decline in England.

Kidney Vetch is a short-lived plant that requires regular disturbance to grow. The butterfly also needs tall grasses and shelter to roost and provide perches for the territorial males. The caterpillars only eat the flowers and seeds of Kidney Vetch before spending the winter in crevices in the ground.

In Swansea East the Small Blue is found on sand dunes in the marina area.

## Threats

Lack of disturbance in vicinity of current breeding sites reducing quantity of Kidney Vetch available.

## Actions required

- Regular disturbance of grasslands on sand dunes and coastal cliffs.
- Small-scale habitat creation in vicinity of new developments throughout its range.

## More information

- Small Blue
- Small Blue pdf
- Bare Ground leaflet


## Lead member

Butterfly Conservation Wales

Wales Environment Link (Charity No.1022675) © 2021 Wales Environment Link



© George Tordoff



## Pencampwr Rhywogaeth



**Mike Hedges AS**
Plaid: Llafur Cymru a chydweithredol
Bro: Dwyrain Abertawe



## Mwy o wybodaeth

- Small Blue
- Small Blue pdf
- Daear Noeth y Loynnod Byw a Gwyfynod

## Prif aelod

Gwarchod Glöynnod Byw Cymru

# Y Glesyn Bach

## Disgrifiad a statws

Mae'n hawdd methu â sylwi ar y glöyn bach del yma, yn rhannol oherwydd ei faint bach a'i liw tywyll, ac am fod ei gynefin yn gyfyngedig i glytiau o laswelltir lle mae Bysedd Mair (Meillion Melyn), planhigyn bwyd ei lindys, yn tyfu.

Gellir gweld y glöynnau llawn dwf o ganol mis Mai tan ddiwedd Mehefin mewn nythfeydd fach; anaml y byddant yn hedfan mwy na 40m. Ond yn ne Cymru maen nhw wedi meddiannu safleoedd hen domenni glo yn y Cymoedd, ddwsinau o gilomedrau o'u cynefin arferol ar dwyni tywod, dociau a chlogwyni glan y môr. Mae eu cynefin wedi ehangu o ganlyniad yng Nghymru, tra'i fod wedi crebachu'n syfrdanol yn Lloegr.

Planhigyn darfodedig yw Bysedd Mair, nad yw'n ffynnu onid aflonyddir arno'n rheolaidd. Mae angen glaswelltydd tal a chysgod ar y glöyn i sicrhau mannau clwydo ar gyfer y gwrywod tiriogaethol. Dim ond blodau a hadau Bysedd Mair y bydd y lindys yn eu bwyta cyn treulio'r gaeaf mewn holltau yn y ddaear.

Yn Nwyrain Abertawe mae'r Glesyn Bach i'w weld ar dwyni tywod yn ardal y Marina.

## Bygythiadau

Os nad aflonyddir digon ar y tir lle mae Bysedd Mair yn tyfu, mae'r planhigion yn llai ffyniannus ac o ganlyniad mae'r safleoedd epilio'n mynd yn llai.

## Gweithredu angenrheidiol

- Aflonyddu'n rheolaidd ar y glaswelltiroedd sydd ar y twyni a'r clogwyni ar lan y môr.
- Creu cynefinoedd bach sy'n addas i'r glöyn yn agos i ddatblygiadau newydd ledled ei gynefin.

Cyswllt Amgylchedd Cymru (Elusen Gofrestredig.1022675) © 2021 Cyswllt Amgylchedd Cymru